**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/0765/25

Russell George MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
SeneddIechyd@senedd.cymru

11 Ebrill 2025

Annwyl Russell,

Mewn ymateb i adroddiad craffu cyfnod un y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), ymrwymais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar sawl argymhelliad sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau dileu elw sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Rwyf wedi nodi fy ymatebion o sylwedd i argymhellion 6 a 13 isod.

Fel y cytunwyd â Chlerc y Pwyllgor, byddaf yn ysgrifennu ar wahân ynglŷn ag argymhelliad 9 ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran trosglwyddo i fodel nid-er-elw ar ôl toriad y Pasg. Bydd fy ateb hefyd yn ymateb i argymhellion 17 a 20 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan ganolog i gefnogi'r gwaith o weithredu taliadau uniongyrchol am Ofal Iechyd Parhaus, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i baratoi Byrddau Iechyd Lleol i fod yn gyfrifol am y taliadau uniongyrchol newydd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Gallaf hefyd gadarnhau bod cynllun gweithredu ar waith i ddiweddaru ac ailsefydlu Fframwaith Perfformiad ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid arweiniol ym maes Gofal Iechyd Parhaus, i ailddatblygu'r mecanwaith adrodd i sicrhau bod y Fframwaith Perfformiad yn addas i'r diben. Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys gwaith i adolygu'r Fframwaith presennol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, yn unol â chyflwyno'r Taliadau Uniongyrchol.

**Argymhelliad 6 - rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaed gan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro'r polisi hyd yma, fy marn cychwynnol ar y gwerthusiad hyd yma a sut y bydd gwerthusiad ffurfiol yn cael ei gynnal**

## Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw

Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw ym mis Medi 2021 i gynorthwyo gweithredu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau sector preifat, trydydd sector a sector cyhoeddus ac mae'n cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n atebol am gyflawni'r Rhaglen. Mae'r aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd a chyda chydweithwyr perthnasol yn eu sefydliadau eu hunain i ystyried tystiolaeth a datblygu cynigion i'w gweithredu trwy drefniadau rheoli rhaglen cadarn.

Caiff gwaith y Bwrdd ei drafod, ei gofnodi a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n goruchwylio Cynllun Rhaglen Genedlaethol ac yn asesu a monitro risgiau, mesurau lliniaru ac effeithiau. Mae'r Cynllun Rhaglen Genedlaethol yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu, gan dynnu ar ystyriaethau polisi ac mae'n cyd-fynd â threfniadau gweithredu aelod-sefydliadau'r Bwrdd. Mae hyn yn galluogi arwain a gweithredu newidiadau sy'n cyflawni diben y Rhaglen a chynnig trefniadau ar gyfer adolygu a gwerthuso ar ôl gweithredu.
Mae prif swyddogaethau'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar ddarparu swyddogaeth graffu, herio a sicrhau bod yr agenda dileu elw yn cael ei chyflawni o fewn y cyd-destun polisi ehangach. Mae hefyd wedi sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud â phrosiectau a rhaglenni eraill a bod ystyriaethau ariannol ac adnoddau yn realistig ac yn adlewyrchu gweithgarwch ehangach ar draws y sector. Bydd y swyddogaethau hyn yn parhau wrth i'r Bwrdd ganolbwyntio ei ymdrechion o'r newydd ar oruchwylio gweithredu yn y dyfodol.

**Casglu Data**

Mae'r Bwrdd yn derbyn data a gesglir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid; mae'r data hyn yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd Rhaglen i fonitro'r polisi. Mae'r sylfaen wybodaeth wedi'i ategu gan wybodaeth ehangach sydd ar gael o bryd i'w gilydd, fel data gwirio ac ymchwil ehangach. Mae adroddiadau gwybodaeth y farchnad wedi cael eu darparu bob chwarter i'r Bwrdd gan Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant sy'n cynnig mewnwelediad, dadansoddiad a dealltwriaeth werthfawr am ddeinameg y farchnad yn y sector. Mae hefyd wedi cynnwys diweddariadau ar fwriad y darparwr a thueddiadau marchnad eraill a all effeithio ar gostau awdurdodau lleol a modelu ariannol.
Gyda'i gilydd mae'r wybodaeth wedi helpu i liniaru risgiau a sicrhau gweithgarwch cynllunio, gweithredu, monitro a chyfathrebu strategol effeithiol. Yn eu tro, mae'r adroddiadau hefyd wedi helpu i lywio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil (Deddf bellach). Maent hefyd wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer awdurdodau lleol, yn ogystal ag i lywio cynllun cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

**Ffrydiau Gwaith ac Adroddiadau Etifeddiaeth**

Mae cyflawniadau'r Bwrdd wedi'u olrhain yn bennaf trwy ei ffrydiau gwaith gan sicrhau bod y cyfnod pontio yn cael ei gydlynu'n dda ar draws gwahanol sectorau. Mae'r ffrydiau gwaith wedi darparu cyngor ar sut i ehangu'r sector nid-er-elw presennol a sut i ddatblygu lleoliadau newydd o fewn lleoliadau preswyl a gofal maeth awdurdodau lleol a di-elw. Mae cyfres o adroddiadau etifeddiaeth wedi'u cynhyrchu o dan bob ffrwd waith sydd wedi tynnu sylw at gyflawniadau hyd yma. Yn eu plith:

- Helpu i adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau i ehangu darpariaeth, adnoddau ariannol, cynllunio gweithlu, cymorth busnes, a materion gweithlu.

- Recriwtio i'r gweithlu a marchnata – drwy faner gwefan 'Gofalwn' Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ymwneud â recriwtio gweithwyr gofal preswyl plant, a hyrwyddo gofal nid-er-elw gan Maethu Cymru. Mae gweithdai penodol bellach yn cael eu trefnu yn unol ag ystyriaethau TUPE sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar y pontio i fodel nid-er-elw ar gyfer gwasanaethau plant.

- Cymuned Ymarfer: Rhannu gwybodaeth a phrofiad yn rheolaidd ymhlith aelodau, gan gynnwys llywio'r adolygiad o Strategaethau Comisiynu Lleoliadau awdurdodau lleol.

Mae gwaith Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith wedi helpu i lywio datblygiad deunydd ategol ar gyfer y darpariaethau deddfwriaethol sy'n sail i'r agenda dileu elw, yn enwedig yr Asesiad Effaith Integredig, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r ffrydiau gwaith wedi sicrhau bod y pontio i fodel nid-er-elw wedi'i gofnodi’n dda ac wedi'i gefnogi gan ddata cadarn.

**Safbwyntiau cychwynnol ar sut y bydd gwerthusiad ffurfiol yn cael ei gynnal**

Mae gwerthuso yn rhan bwysig o bob polisi a deddfwriaeth. Mae’r hyn a ddysgwyd wedi'i gymhwyso o'r dull a ddefnyddiwyd i werthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd wedi mabwysiadu dull gwerthuso sy'n canolbwyntio ar egwyddorion. Roedd y dull hwnnw'n canolbwyntio ar werthuso sut roedd egwyddorion y Ddeddf a arweiniodd at ei weithrediad yn cael eu mynegi'n ystyrlon, i ba raddau y cadwyd atynt ac ym mha ffyrdd y arweiniodd yr egwyddorion hynny at y canlyniadau dymunol ar draws y meysydd polisi perthnasol.

Er y gallai hynny fod yn ddull addas ar gyfer y gwerthusiad hwn, byddwn yn gweithio gyda thimau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth i wneud yn siŵr ein bod yn mabwysiadu dull sy'n caniatáu inni ddeall sut y gellir gwella gweithrediad, ymarfer a chanlyniadau. Mae'r union fanylion ynghylch trefniadau gwerthuso yn dal i gael eu penderfynu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, fy marn yw bod natur unigryw yr elfennau dileu elw yn y Ddeddf yn gofyn am werthusiad annibynnol, yn gyfan gwbl ar wahân i elfennau eraill y Ddeddf. Er bod swyddogion yn dal i sefydlu'r manylion llawn o ran sut y bydd y gwerthusiad o'r darpariaethau dileu elw yn cael ei gynnal, rwy'n disgwyl y bydd cwmpas yr adolygiad a'r gwerthusiad ôl-weithredu yn digwydd dros sawl blwyddyn wrth i'r gweithrediad ddod i rym.

Bydd data llinell sylfaen yn cael eu casglu ar ddechrau'r trefniadau newydd yn 2026 ac yn dod i ben flwyddyn ar ôl i'r trefniadau newydd terfynol gael eu cyflwyno (ar hyn o bryd 1 Ebrill 2030 neu gynt), gan ddefnyddio llinell sylfaen o ddata o 2026 ac yn rhychwantu'r blynyddoedd gan dynnu ar y data o'n gweithgarwch monitro a ffynonellau ehangach i lywio'r adolygiad ôl-weithredu. Wrth ystyried unrhyw ddull terfynol, bydd swyddogion yn ystyried rhinweddau:

- Synthesis tystiolaeth i edrych ar gyd-destun y polisi dileu elw.
- Theori newid i ddeall sut a pham mae disgwyl i newid a ddymunir ddigwydd ynghylch y polisi.
- Prosiect i ddeall sut mae'r polisi wedi'i weithredu a'r effaith y mae wedi'i chael.

**Argymhelliad 13 - argaeledd adnoddau hygyrch gyda’r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i fynegi eu barn arno.**

Nododd fy ymateb i argymhelliad 13 fod cynllun cyfathrebu'r Bwrdd yn cynnwys gweithgareddau penodol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau deddfwriaethol ymhlith gwahanol rannau o'r sector. Mae'r Bwrdd wedi bod yn allweddol wrth gyd-ddatblygu negeseuon wedi'u targedu ar gyfer grwpiau allweddol i helpu i'w paratoi ar gyfer y trefniadau newydd. Mae hyn yn cynnwys negeseuon penodol i blant a phobl ifanc i esbonio elfennau o'r Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt. Mae aelodau'r bwrdd, gan gynnwys Voices from Care Cymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, wedi bod yn hanfodol o ran llunio a

phrofi'r negeseuon hynny gyda phobl ifanc ac rydym yn parhau i ymgysylltu â nhw yn barhaus.

Gellir dod o hyd i'r negeseuon sydd wedi'u cyhoeddi yn [https://www.llyw.cymru/newid-i-fodelau-gofal-nid-er-elw-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-taflenni-gwybodaeth](https://www.llyw.cymru/newid-i-fodelau-gofal-nid-er-elw-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-taflenni-gwybodaeth). Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion cyfathrebu parhaus yn cael eu hystyried.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care